

## Opera 360: Y Diwydiant Opera

Cais Drwy: UCAS Conservatoires  
Cod Sefydliad: R59

Cod Ymgeisio: 351F (llawn amser), 351P (rhan amser)

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o'r rhaglenni a gynigir o fis Medi 2023. A fydddech cystal â nodi y gallai'r rhain gael eu haddasu a'u newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr bob amser ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn symud drwy'r cwrs bydd angen i'r myfyrwyr fel arfer basio pob modiwl ac ennill 180 credyd i ennill cymhwyster gradd meistr.

Arfer y Diwydiant	Cerddoriaeth a Drama	
Arweinyddiaeth ym maes Opera 20 credyd	Cerddoriaeth Gyfoes mewn Theatr 20 credyd	I ennill y cymhwyster gradd meistr:
Y System Tŷ 20 credyd	Y Cyfarwyddwr 20 credyd	Prosiect Mawr 40 credyd
Gweinyddu Opera 20 credyd	Yr Actor 20 credyd	Sgiliau Ymchwil 20 credyd (neu Achredu Dysgu Blaenorol)
Ysgrifennu ac Opera 20 credyd	Y Cynllunydd 20 credyd	Darllen Sgôr* 20 credyd

\*Modiwl dewisol ar gyfer myfyrwyr a fyddai'n hoffi gwella'r sgil hon

Os na fydd digon o fyfyrwyr â diddordeb mewn modiwl, efallai na chaiff ei gynneg. Os na gynhelir modiwl byddwn yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr cyn gynted â phosibl ac yna'n eich cynorthwyo i ddewis modiwl arall.

### Arweinyddiaeth ym maes Opera

Credydau: 20

Asesiad: Ysgrifenedig (100%)

Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar sut y mae arweinwyr rhagorol cwmnïau opera yn archwilio arferion arloesol yn yr amgylchedd presennol. Bydd darlithoedd yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion, o ymgysylltu â'r gymuned ehangach i greu diwylliant o weithio, gan adeiladu ar gysyniadau allweddol. Rhoddir cyflwyniadau gan arweinwyr sydd wedi bod â swyddi lefel uchel mewn cwmnïau opera. Bydd y dosbarthiadau yn canolbwyntio ar ddangos yr heriau unigryw sy'n wynebu arweinwyr yn y diwydiant opera, gan gynnwys nid yn unig weithrediad o ddydd i ddydd sefydliadau o'r fath, ond ar ddiogelu gwerth sefydliadau diwylliannol, diwallu anghenion y byd ehangach, ac adeiladu llwybrau cryf tuag at y dyfodol. Bydd y modiwl yn cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu safbwynt critigol datblygedig ar drafodaethau cyfoes ym myd opera.

### Y System Tŷ

Credydau: 20  
Asesiad: Ysgrifenedig (100%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o'r nifer o ffyrdd y mae gwahanol dai opera wedi llywio hanes yr opera. Bydd astudiaethau achos yn cynnwys tai megis Opera Gwladwriaethol Fienna, Opera Metropolitan ac Opera Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â golwg fanwl ar y system tai opera yn yr Almaen. Drwy seminarau gyda rhai sydd wedi gweithio mewn nifer o wahanol dai opera yn ystod eu gyrfaedd, bydd myfyrwyr yn cael golwg ar arferion unigryw busnes opera. Drwy astudiaeth uwch o'r arferion amrywiol y dyddiau hyn ac yn hanesyddol, bydd myfyrwyr yn gallu cyfuno'r wybodaeth hon wrth ddatblygu dulliau newydd arloesol.

### Gweinyddu Opera

Credydau: 20  
Asesiad: Ysgrifenedig (100%)

Ymchwilir gwahanol rolau gweinyddu opera yn fanwl, yn amrywio o gynllunio, archebu, marchnata, rheolwyr prosiect, rheolwyr teithiau a chyngherddau, i wasanaethau theatraidd. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar astudiaethau achos a chyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol yn y maes fel y gall myfyrwyr weld sut mae gwahanol haenau rheolaeth yn cydweithio yn y byd opera i ddod â chynrychiadau i'r llwyfan. Bydd y modiwl yn canolbwyntio ar yr agweddau ar reoli sy'n unigryw i'r diwydiant opera fel bod myfyrwyr mewn safle gwell i gamu ar unwaith i'r amgylchedd proffesiynol hwnnw.

### Ysgrifennu ac Opera

Credydau: 20  
Asesiad: Ysgrifenedig (100%)

Bydd y modiwl hwn yn dadansoddi'r dulliau amrywiol a ddefnyddir wrth ysgrifennu am opera, a sut y mae'r rhain wedi llunio, ac yn llunio, y diwydiant. Rhoddir ystyriaeth i newyddiaduraeth, beirniadaeth a mathau eraill o ysgrifennu ar gyfer ymgysylltu ag opera, yn ogystal â libretos, ac yn benodol arferion a newidiodd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddaeth ffocws ar libretto geiriau opera yn bwysig. Addysgir dosbarthiadau gan weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad eang o ysgrifennu ar draws genres. Hefyd, cynhelir gweithdai ysgrifennu ar gyfer myfyrwyr i ddatblygu eu gwaith gyda chyfarwyddyd arbenigol.

### Cerddoriaeth Gyfoes mewn Theatr

Credydau: 20  
Asesiad: Cyflwyniad (60%), Ysgrifenedig (40%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth feirniadol benodol i fyfyrwyr o arferion gweithio ym myd amlweddol Cerddoriaeth Gyfoes mewn Theatr. Bydd y modiwl yn dangos sut y mae rhwystrau rhwng gwahanol genres theatraidd yn lleihau. Archwilir astudiaethau achos o gwmnïau sy'n llwyfannu genres gwahanol o gynrychiadau theatraidd er mwyn dangos sut y mae disgwyliadau sy'n newid wedi creu cyfleoedd ar gyfer arloesi, yn y modd y cyflwynir cynrychiadau a hefyd o ran eu cynnwys. Bydd y myfyriwr yn datblygu gwybodaeth am arddull a genre ond, yn hollbwysig, o safbwynt perfformwyr.

### Y Cyfarwyddwr

Credydau: 20  
Asesiad: Ysgrifenedig (100%)

Bydd y modiwl hwn yn archwilio'r heriau o gyfarwyddo opera, o lunio timau creadigol i weithio mewn tai opera penodol. Caiff myfyrwyr y cyfle i arsylwi ar rihysals a hyfforddiant. Canolbwyntir ar yr amgylchedd proffesiynol a feddiannir gan gyfarwyddwyr gan gynnwys sut y mae eu rôl yn pontio'r strwythur rheoli a'r strwythur creadigol. Caff myfyrwyr y cyfle i weld pob agwedd ar waith cyfarwyddwr. Bydd darlithoedd yn rhoi dealltwriaeth hanesyddol fanwl o'r rôl i'r myfyrwyr. Bydd gwaith cyfarwyddwyr penodol yn sail ar gyfer astudiaethau achos, gan edrych ar y disgwyliadau sydd ar gyfarwyddwyr sy'n gweithio mewn gwahanol genres, a sut y mae rhai cyfarwyddwyr yn dod â'u harddull bersonol i genre. Bydd dulliau'n ymwneud ag awduraeth mewn ymdrechion artistig cydweithredol yn sail ar gyfer defnydd cadarn o theori feirniadol.

### Yr Actor

Credydau: 20  
Asesiad: Ymarferol (100%)

Bydd y modiwl hwn yn archwilio'n fanwl actio ym maes opera, o'r broses castio i sut mae'r actorion yn ymdrin â'r rôl a sut y maent yn adeiladu cymeriadau. Caiff myfyrwyr y cyfle i arsylwi ar rihysals a hyfforddiant, a chanolbwyntir drwy gydol y modiwl ar y broses rihysio. Arweinir y dosbarthiadau gan gantorion a chyfarwyddwyr a fydd yn rhannu eu gwahanol ddulliau ar gyfer creu rolau, a hefyd rhannu mewnwelediadau ynglŷn â sut y mae'n rhaid addasu gofynion canu i ddarluniad cymeriad.

### Y Cynllunydd

Credydau: 20  
Asesiad: Ymarferol (100%)

Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar waith cynllunwyr, o safbwynt hanesyddol a chyfoes. Arweinir y modiwl gan gynllunwyr a fydd yn dangos sut mae eu gwaith yn ffitio i'r broses gynhyrchu, a sut y mae'r prosesau hyn yn wahanol mewn gwahanol dai opera. Eglurir safbwyntiau hanesyddol hefyd fel y gall myfyrwyr weld sut mae'r rôl wedi datblygu dros amser. Bydd astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar waith cynllunwyr penodol ar draws genres ar gyfer gwahanol dai opera yn sail ar gyfer ymholiad beirniadol. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn archwilio astudiaethau achos sy'n edrych ar wahanol ddulliau cynllunwyr ar gyfer operâu eiconig, a sut mae cyflwyniad technoleg newydd yn newid sut y gallai opera gael ei chyflwyno yn y dyfodol.

### Prosiect Mawr

Credydau: 40  
Dewisiadau asesu:  
Ysgrifenedig – Traethawd Estynedig (100%)  
Ymarferol – Recordiad Amlgyfrwng (100%)  
Ysgrifenedig – Marchnata/Entrepreneuraidd (Cynnig 60%/Cyflwyniad 40%)  
Studiaeth Ddichonoldeb (Cynnig 60%/Cyflwyniad 40%)

Bydd y modiwl hwn yn arwain ac yn cefnogi gwaith cynllunio, paratoi, cynhyrchu a chyflwyno ymchwil sy'n gysylltiedig â'r pynciau a archwilir ar y cwrs. Dilynr gweithdai cychwynnol mewn methodoleg ymchwil datblygedig gan diwtorialau unigol a seminarau grŵp. Yn dilyn cyflwyniad

crynodeb 300 gair, trafodir pynciau gydag Arweinydd Dyfarniad MA Opera 360 er mwyn eu cymeradwyo; yna penodir tiwtoriaid unigol, a llunnir amserlen sesiynau goruchwyllo. Bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno adroddiadau ar eu cynnydd mewn seminarau ymchwil ôl-radd dynodedig.

Gall myfyrwyr ymgymryd â'r prosiect mewn amrywiaeth o ffyrdd - **Traethawd estynedig ymchwil**, neu brosiect ysgrifenedig tebyg, a allai fod yn **Bortffolio newyddiaduraeth** o ysgrifennu mewn amrywiaeth o genres, o feirniadaeth i gyfweiliadau a darnau nodwedd ar bynciau cyfoes (12,000 o eiriau); prosiect **Marchnata** yn cynnwys ymgyrch wedi'i hymchwilio gyda gwahanol ddeunyddiau sy'n llunio esiamplau proffesiynol, a chyflwyniad i banel o arbenigwyr; prosiect **Entrepreneuraidd**, a fydd yn caniatáu i'r myfyrwyr edrych ar ystod o weithgareddau, o greu gŵyl, i greu cwmni newydd, ac yn cynnwys cynnig ysgrifenedig a chyflwyniad i banel o arbenigwyr; prosiect **Cyfryngau** yn cynnwys rhaglen radio (neu debyg) o ansawdd proffesiynol ar bwnc ym maes opera. **Astudiaeth Ddichonoldeb** sy'n ymateb i angen presennol yn y diwydiant opera, a gall myfyrwyr sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant opera ddewis prosiect sy'n canolbwyntio ar anghenion eu sefydliad eu hunain.

### Sgiliau Ymchwil

Credydau: 20

Asesiad: Ysgrifenedig (50%), Ysgrifenedig (50%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr ar gyfer ymchwil ôl-radd. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio adnoddau llyfrgell ac ar-lein; cyfeiriadau a llyfryddiaeth; cynllunio; darllen ac ysgrifennu beirniadol; a gwaith myfyriol. Bydd dosbarthiadau hefyd yn cynnwys gweithdai ysgrifennu er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i ddeall yn well ofynion penodol arddull academiaidd. Efallai y cysylltir rhai tasgau i ddatblygiad syniadau prosiect mawr y bydd myfyrwyr efallai am eu dilyn ymhellach yn y cwrs.

### Darllen a Dadansoddi Sgôr

Credydau: 20

Asesiad: Gwaith Cwrs Ymarferol (100%)

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i ddadansoddi a dehongli'r sgoriau operatig a gyflwynir ar y cwrs. Bydd dosbarthiadau'n canolbwyntio ar nodiant cerddorol, ynghyd â gramadeg cerddorol. Caiff confensiynau penodol i opera hefyd eu cyflwyno.